# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll

Nos Fawrth 8fed o Hydref, 2019 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams



| | | |
|---|---|---|
| **Presenol** | | Sara Williams **(SW),** Griffith Jones **(GJ),** John Owen **(JO)**,Gwilym Williams **(GW)**, Lizbeth James **(LJ)**, Olwen Roberts **(OR)**, William Jones **(WJ)**. |
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod ac llongyfarch y Clerc ar ei phen-blwydd yn 50 heno. |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau ac absenoldeb**<br>Sianelen Pleming **(SP)**, Ynyr Ellis **(YE)**, Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).** |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Gorffenaf, 2019** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd LJ gywirdeb y Cofnodion, eiliodd GW a chytunodd pawb |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1.*** | **Materion Lleol**<br>Cais gan **OR** - gordyfiant clawdd o amgylch Pont Bryn Celyn - **wedi ei ddatrys.**<br>Cais gan **SW** - gordyfiant wrth Lys Mair, Llithfaen, gwrychoedd yn tyfu i'r palmant a thrigolion yn gorfod camu i'r lon. - **wedi ei ddatrys.**<br>Cais gan **SP** - gwrychoedd wedi gordyfu ar y chwith o Lithfaen am Bont Bryn Celyn - **wedi ei ddatrys.** |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | *5.2.2*<br><br><br>*5.2.3* | **Wal y ffordd i Nant**<br>Y gwaith bellach wedi cychwyn<br><br>**Cwyn gan Adran Gynllunio am wersylla dros nos yn Faes Parcio ger Troed Yr Eifl**<br>Yn dilyn Cyfarfod mis Medi roedd y Clerc wedi cysylltu yn ôl gyda'r adran Gynllunio gyda'r wybodaeth ganlynol<br>• *Y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y maes parcio cyfan*<br>• *Yr Aelodau'n ymwybodol bod gwersylla dros nos ar y safle yn ystod gwyliau Banc a.y.b.*<br>• *Nid yw'r Cyngor wedi derbyn unrhyw gwynion uniongyrchol ynglŷn â gwersylla dros nos*<br>• *Mae'r biniau'n cael eu gwagio'n rheolaidd ac nid oes sbwriel anghyfreithlon yn cael eu gadael ar y safle.*<br><br>Esboniodd LJ bod yr un person yn dal i wersylla ar y safle, ond does dal ddim cwyn swyddogol wedi ei wneud i'r Cyngor ac nid oes problem gyda sbwriel ar y safle.<br>***Penderfynwyd bydd y Cyngor yn parhau i fod yn wyliadwrus o'r sefyllfa.*** |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Dim |
| **7.** | | **Y Ganolfan**<br>Derbyniwyd gwybodaeth gan **SP** bod mater y parcio yn dal i fod ar y gweill a bod y les ar y trywydd iawn ond nid oes diweddariad pellach. |
| **8.** | | **Adroddiad yr Archwiliad Allanol 2019**<br>Derbyniwyd a mabwysiadwyd yr adroddiad.<br>***Y Clerc i osod yr adroddiad ar y wefan ar argymhellion i'r Rhaglen Waith.*** |
| **9.** | | **Gwefan y Cyngor**<br>Esboniodd y Clerc fod Eluned Evans wedi trosglwyddo pob cyfrifoldeb am y wefan iddi hi. Eglurodd bod rhai newidiadau wedi ei wneud yn barod a bod pob dogfen angenrheidiol nawr wedi ei ychwanegu. |
| **10.** | | **Materion Lleol**<br>Derbyniwyd cwyn gan **GW** am y canlynol:<br>• gwrych wedi gôr dyfu ar wal Tŷ yr Hen Eglwys ar y Bont yn Llithfaen<br>• Difrod hefo dwr yn rhedeg o Fryn Celyn Uchaf ar Ffordd y Nant i fynnu o'r groesffordd.<br>***Y Clerc i gysylltu â Phriffyrdd Dwyfor*** |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | *11.1* | **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru** - Nodwyd LJ bod gwendid yn yr Iaith Gymraeg yn gyson mewn gohebiaeth gan Un Llais Cymru, hefyd diffyg dyddiad ymateb byr - Esboniodd y Clerc ei bod wedi gyrru cwyn yn dilyn y Cyfarfod blaenorol. |
| | *11.2* | **Llythyr gan Mabon ap Gwynfor - Ymgeisydd Plaid Cymru, Cynulliad Cymru, Dwyfor Meirionydd**<br>Cais am gefnogaeth i gael Canolfan Ddiagnosis Canser yma yng Ngwynedd.<br>https://www.dwyformeirionnydd.cymru/deiagnosis_canser<br>***Y Clerc i weithredu cefnogaeth y Cyngor*** |
| **12.** | | **Cyllid**<br>Eglurodd y Clerc nad yw'r siec i Llio Gethin wedi ei gyflwyno i'r Banc - Cytunwyd bydd y Cadeirydd yn cysylltu â'r teulu i wneud yn siŵr nad oes trafferthion. |
| | *12.1* | **Cyfrifon**<br>Rhannwyd y Cyfrifon i'r Aelodau o flaen llaw. Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd **GW** eu cywirdeb, eiliodd **LJ** a chytunodd pawb. |
| | *12.2* | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**<br><br>Taliadau - Archwilwyr Allanol am Archwiliad 2017-18 £464.66<br>Hughes Jones Dyson (PAYE) £180.00<br>Cyflog Clerc £160.00<br>Treuliau Clerc £ 28.18<br>Argraffdy Eryri Cyf £78.00<br><br>Derbyniadau – Preiseb Cyngor Gwynedd - £5,000<br>**Balans - £7815.51**<br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br><br>**Balans- £3,082.55 (Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn Cyfriflen Banc i'r Cyfrif Cadw)**<br>Cadarnhaodd ei bod wedi talu mewn i'r Banc y rhodd o **£320.60** gan Ras y 3 Chopa tuag at y Diffiblwr felly disgwylir i'r Balans cywir fod yn **£3,404.69** |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas* *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP* *Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | ***12.3*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br><br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc - £10 |
| **13.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>Tachwedd y 12fed, 2019 |

*Llofnodwyd gan..............................................................................................Dyddiad.......................................................*